Rwy'n cyflwyno'n hargymhellion i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ran y Pwyllgor. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gydweithio â grwpiau cymunedol ac awdurdodau cyhoeddus i weithredu'n hargymhellion a defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn Nantygwyddon ym mholsiâu gwastraff Cymru yn y dyfodol.

*Richard Edwards*

### **RICHARD EDWARDS AC**

Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth  
Chwefror 2002

# Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth



**Richard Edwards AC (Cadeirydd)  
Preseli Sir Benfro**



**Sue Essex AC (Gweinidog dros yr  
Amgylchedd)  
Gogledd Caerdydd**



**Eleanor Burnham AC  
Gogledd Cymru**




**Val Lloyd AC  
Dwyrain Abertawe**



**David Davies AC  
Mynwy**



**Tom Middlehurst AC  
Alun a Glannau Dyfrdwy**




**Geraint Davies AC  
Rhondda**



**Rhodri Glyn Thomas AC  
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr**



**Helen Mary Jones AC  
Llanelli**



**Karen Sinclair AC  
De Clwyd**

# Cynnwys

<b>Pennod 1</b>	Rhagymadrodd
<b>Pennod 2</b>	Ystyried Adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol
<b>Pennod 3</b>	Crynodeb o'r Argymhellion
<b>Atodiad 1</b>	Penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol
<b>Atodiad 2</b>	Cylch Gorchwyl
<b>Atodiad 3</b>	Argymhellion yr Ymchwilydd Annibynnol
<b>Atodiad 4</b>	Ymatebion i Adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol



# Pennod 1

## Rhagymadrodd



# Rhagymadrodd

## Ein ffocws

1.1. Ers rhai blynnyddoedd, mae'r trigolion sy'n byw yng nghyffiniau safle tirlenwi Nantygwyddon yn y Rhondda wedi mynegi eu pryderon ynghylch arogleuon, mygdarthau a gollyngiadau eraill sy'n deillio o'r safle tirlenwi sydd, yn eu barn hwy, yn cael effaith niweidiol nid yn unig ar harddwch eu cymuned, ond hefyd ar blant yn y groth. Lleisiwyd nifer o bryderon ynghylch materion cynllunio, dylunio, rheoli a rheoleiddio'r safle ers iddo gael ei sefydlu ym 1988.

1.2. Ym mis Gorffennaf 2000, penderfynodd y Cynulliad Cenedlaethol gynnal ymchwiliad annibynnol i safle tirlenwi Nantygwyddon, gan edrych ar y materion iechyd, amgylcheddol a chynllunio sy'n berthnasol iddo wrth arfer ei swyddogaethau. Gofynnwyd i ni, mewn cysylltiad â'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, gynnal yr ymchwiliad gyda chymorth ymchwilydd annibynnol. Wrth ystyried sut orau i fynd i'r afael â'r dasg, cytunom i ganolbwytio ar nodi gwersi ar gyfer y dyfodol trwy asesu sut oedd trefniadau sefydlu, rheoli a rheoleiddio'r safle yn cymharu â'r canllawiau a oedd yn weithredol ar y pryd, yn ogystal â'r canllawiau arfer gorau presennol. Nodir **penderfyniad** y Cynulliad Cenedlaethol yn **Atodiad 1**.

## Ein dull o weithredu

1.3. Ein prif egwyddor yw bod yn agored a thryloyw. Cawsom gyfarwyddyd gan y Cynulliad y dyla'r ymchwiliad gael ei gynnal yn gyhoeddus, ac eithrio pan ystyrrir y byddai hynny'n andwyol i ganlyniad yr ymchwiliad, ac y byddem ni â'r ymchwilydd yn cyfarfod ac yn clywed dystiolaeth yn lleol. Rydym wedi glynu at y cyfarwyddyd hwn, ac wedi cadw cofnod cyhoeddus o'r holl dystiolaeth a dderbyniwyd yn ystod yr ymchwiliad, boed yn dystiolaeth a roddwyd ar lafar ac yn gyhoeddus, neu'n dystiolaeth ysgrifenedig. Gyda'n cymeradwyaeth ni, mabwysiadodd yr Ymchwilydd Annibynnol ddull gweithredu a oedd yn golygu nad oedd dystiolaeth a roddwyd 'yn gyfrinachol' yn unig yn cael ei hystyried.

1.4. Cychwynnodd ein hymchwiliad ym mis Hydref 2000 pan gyfarfur' Pwyllgor ddwywaith yn y Rhondda<sup>1</sup>. Yn y cyfarfod cyntaf, cawsom amlinelliad o bryderon y trigolion lleol, ac yn yr ail clywsom gyflwyniadau gan gyrrff cyhoeddus a sefydiadau fu'n gyfrifol am sefydlu, rheoli a rheoleiddio'r safle. Ceir trawsgrifiad o'r cyfarfodydd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

1.5. Hysbysebwyd am Ymchwilydd Annibynnol i'n cynorthwyo i gasglu dystiolaeth a dadansoddi'r materion. Yn dilyn cystadleuaeth agored, penodwyd David Purchon. Mae ei brofiad blaenorol yn cynnwys cyfnodau fel Llywydd Sefydliaid Siartredig lechyd yr Amgylchedd; ymgynghorydd i Brif Swyddog

Meddygol Lloegr ar wella iechyd y cyhoedd a rheoli clefydau trosglwyddadwy; a hefyd fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Amgylcheddol Cyngor Dinas Sheffield. Yn **Atodiad 2**, ceir **cylch gorchwyl** manwl sy'n nodi'r materion penodol yr oeddem am i'r Ymchwilydd Cyffredinol eu hystyried.

**1.6.** Cychwynnodd yr Ymchwilydd Cyffredinol ar ei waith ym mis Tachwedd 2000, ac yn ystod y flwyddyn clywodd dystiolaeth lafar am gyfanswm o 36 niwrnod, a bu'n craffu ar dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r ymchwiliad. Cyflwynodd adroddiad cynnydd i ni bedair gwaith<sup>2</sup>. Yn dilyn ei ddadansoddiad terfynol o'r dystiolaeth, cyflwynodd yr Ymchwilydd Annibynnol ei adroddiad i ni yn ystod cyfarfod y Pwyllgor yn y Rhondda ym mis Rhagfyr 2001<sup>3</sup>. Yn **Atodiad 3** nodir yr **argymhellion** a geir yn ei adroddiad.

**1.7.** Yn y pendraw, y ni oedd yn gyfrifol am yr ymchwiliad, ac fe wnaethom gadw hyn mewn cof. Felly, cyn dod i unrhyw gasgliadau, gwnaethom wahodd pawb a oedd yn ymwneud â'r ymchwiliad i roi eu sylwadau ar adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol. Derbyniwyd **ymatebion** gan y rheini a restrir yn **Atodiad 4**. Ym mis Ionawr 2002<sup>4</sup> gwnaethom bwynt o holi cynrychiolwyr Awdurdod Iechyd Bro Taf, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBS) ynghylch eu hymatebion i'r adroddiad. Mae trawsgrifiad ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

**1.8.** Gwnaethom ystyried adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol a'r holl ymatebion iddo ym mis Chwefror 2002<sup>5</sup> cyn cymeradwyo'n hadroddiad a'n hargymhellion i'r cyfarfod llawn<sup>6</sup>.

## Ein hystyriaeth o adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol

**1.9.** Ym **mhennod 2** amlinellir ein **hystyriaeth o adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol yng ngoleuni'r ymatebion a gafwyd iddo**. Er hwylustod, trefnwyd argymhellion yr Ymchwilydd Annibynnol yn ddu grwp, sef argymhellion sy'n berthnasol i'r safle ac argymhellion cyffredinol. Rydym hefyd wedi nodi rhai pwyntiau o eglurhad ynghyd â'n hasesiad o'r argymhellion. (Nid yw trefn y grwpiau'n awgrymu unrhyw flaeoniaethu, ac nid ydynt yn rhaniadau haearnaidd. Er bod argymhelliad 16.6 yn cyfeirio'n benodol at yr ardal o gwmpas Nantygwyddon, byddai'n sicr o ddiddordeb cyffredinol pe'i derbynid a'i weithredu.)

## Ein hargymhellion

**1.10.** Derbyniwyd holl argymhellion yr Ymchwilydd Annibynnol. Mae'r pwyntiau o eglurhad a amlinellir ym Mhennod 2 yn rhoi'n rhesymau dros wneud hynny, ond nid ydynt yn ychwanegu at yr argymhellion hynny nac yn tynnu unrhyw beth oddi arnynt. **Mae'n hargymhellion ffurfiol** i'r Cyfarfod Llawn i'w gweld ym **Mhennod Tri**.

<sup>2</sup> 13 Rhagfyr 2000 (EPT-14-00), 14 Chwefror 2001 (EPT-03-01), 9 Mai 2001 (EPT-08-01) a 13 Mehefin (EPT-10-01), Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

<sup>3</sup> 12 Rhagfyr 2001 (EPT-18-01), Theatr Parc a Dare, Treorci

<sup>4</sup> 23 Ionawr 2002 (EPT-02-01), Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

<sup>5</sup> 6 Chwefror 2002 (EPT-03-02), Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

<sup>6</sup> 12 Chwefror 2002 (EPT-04-02), Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol.

## Gwersi ar gyfer y dyfodol

1.11. Mae'n hymchwiliad wedi bod yn arloesol, ac mae wedi gosod cysail i waith pwylgorau pwnc y Cynulliad Cenedlaethol. Cyn datganoli, nid oedd modd cynnal ymchwiliad o'r math hwn, ac rydym yn credu ei fod yn dangos y Cynulliad yn gweithio ar ei orau, trwy ymdrin â materion o bryder lleol sydd hefyd ag arwyddocâd ehangach i Gymru gyfan. Nawr bod yr ymchwiliad wedi ei gwblhau, rydym yn bwriadu adolygu'r broses er mwyn nodi gwersi ar gyfer ymchwiliadau yn y dyfodol, ac fe fyddwn yn gwahodd sylwadau'r rheini a fu'n cymryd rhan.

## Pennod 2

# Ystyried adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol



# Ystyried adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol

## Adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol

2.1. Cyflwynodd yr Ymchwilydd Annibynnol ei adroddiad i ni yng nghyfarfod y Pwyllgor yn Nhreorci ar 12 Rhagfyr 2001. Nodir ei **argymhellion** yn **Atodiad 3**. Rhennir yr adroddiad yn adrannau sy'n cyfateb i gylch gorchwyl yr ymchwiliad. Mae pob adran yn nodi'r canfyddiadau sy'n dod i'r golwg, a cheir casgliadau yn adran 15 ac argymhellion yn adran 16. Mae'r atodlenni'n cynnwys mwy o wybodaeth fanwl ac astudiaethau. Mae copi o'r adroddiad ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## Ymatebion i adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol

2.2. Gwnaethom estyn gwahoddiad i bawb a fu'n ymwneud â'r ymchwiliad i ymateb i'r adroddiad erbyn 10 Ionawr 2002. Derbyniwyd **ymatebion** gan yr unigolion a'r sefydliadau a restrir yn **Atodiad 4**. Gwnaeth rhai o'r ymatebwyr, yn bennaf y cyrff cyhoeddus a gweithredydd y safle, dynnu ein sylw at bwyntiau yr oeddynt yn eu hystyried fel anghywirdebau ffeithiol yn yr adroddiad, ac fe wnaethant ofyn am eu cywiro, neu ofyn am eglurhad pellach o argymhellion yr Ymchwilydd Annibynnol. Tynnodd eraill sylwr' Pwyllgor at bwyntiau a hepgorwyd yn yr adroddiad, ac yr oeddynt yn barnu eu bod yn berthnasol i'r gwaith o ystyried y casgliadau a'r argymhellion terfynol. Cafwyd syniadau ar gyfer argymhellion a meysydd ymchwil pellach gan rai ymatebwyr, trigolion lleol yn bennaf.

2.3. Rydym yn credu y dylid ystyried yr ymatebion hyn (wedi'u marcio â \* yn Atodiad 4) ochr yn ochr ag adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol. Mae natur yr ymchwiliad, yn enwedig y pwyslais a roesom ar ei gadw'n syml, cael mynediad hawdd a phrydlondeb, yn golygu nad oedd yn bosibl na'n ddymunol i nodi a chywiro'r holl anghywirdebau neu faterion eraill sy'n creu anghydfod. Serch hynny, yr ydym wedi ystyried yn ofalus a oedd y pwyntiau hynny a wnaethpwyd gan yr ymatebwyr, hyd yn oed oes oeddynt yn gyfiawn, yn cwestiynu casgliadau ac argymhellion yr Ymchwilydd Annibynnol. Rydym yn fodlon nad ydynt yn gwneud hyn.

2.4. Ar 23 Ionawr 2002, gwnaethom holi cynrychiolwyr Awdurdod lechyd Bro Taf, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a CBS Rhondda Cynon Taf ynghylch eu hymatebion i adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol. Ceir trawsgrifiad o'r cyfarfod ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## Ystyried yr adroddiad a'r ymatebion

2.5. Ar 6 Chwefror 2002 gwnaethom ystyried adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol a'r ymatebion iddo. Ceir trawsgrifiad o'r cyfarfod ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk) Trefnom argymhellion yr Ymchwilydd Annibynnol yn ddu grwp, sef argymhellion sy'n berthnasol i'r safle (h.y. sy'n ymwneud â safle tirlenwi Nantygwyddon), ac argymhellion ar

gyfer gweithredu mwy cyffredinol. Holwyd yr Ymchwilydd Annibynnol ynghylch ei argymhellion, ac roedd y cwestiynau'n seiliedig ar ein hasesiad ninnau o'i adroddiad a'r ymatebion a dderbyniwyd. Isod nodir crynodeb o'n trafodaeth ynghylch ei argymhellion a phwyntiau o eglurhad.

## **Argymhellion sy'n berthnasol i'r safle penodol (16.1 hyd 16.6, 16.10, 16.12)**

*Rhoi'r gorau i waredu gwastraff domestig yn Nantygwyddon (16.1)*

**2.6.** Eglurodd yr Ymchwilydd Annibynnol nad oedd yn argymhell rhoi'r gorau i waredu gwastraff anadweithiol a gwastraff diwydiannol a masnachol anorganig yn Nantygwyddon, ond yn hytrach ei fod yn argymhell rhoi'r gorau i waredu gwastraff domestig, pydradwy ac organig yno. Awgrymodd ailgylchu a chompostio gwastraff pydradwy yn hytrach na'i ddymvio, heb ei drin, mewn safloedd tirlenwi.

**2.7.** Cadarnhaodd yr Ymchwilydd Annibynnol y dylid gweithredu'r argymhelliad hwn cyn gynted â phosibl. Rydym yn nodi bod Strategaeth Gwaredu Gwastraff CBS Rhondda Cynon Taf<sup>7</sup> yn bwriadu gweld y safle yn cau ymhen dwy flynedd, ond gwnaeth gwaredu gwastraff domestig yn Nantygwyddon ddod i ben ym mis Rhagfyr 2002, wedi i'r Ymchwilydd Annibynnol gyflwyno ei adroddiad i ni.

**2.8.** Rydym yn croesawu'r camau y mae CBS Rhondda Cynon Taf wedi eu cymryd i gyflwyno cynlluniau ailgylchu yn eu hardal ac i gefnogi trigolion lleol sydd am gymryd rhan yn y broses. Gan gofio ymrwymiad y trigolion lleol, yn arbennig grwp gweithredu Rhondda Against Nantygwyddon Tip (RANT), i godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n ymwneud â thirlenwi, rydym yn credu y dylid cyfeirio'u harbenigedd, eu hegni a'u brwd frydedd at hybu dulliau 'gwyrd' eraill yn eu cymuned, fel y gellir osgoi tirlenwi.

*Cwblhau Cam 1 yn gyflym (16.2)*

*Comisiynu astudiaeth awdurdodol ar sefydlogrwydd Nantygwyddon (16.10)*

**2.9.** Gwnaethom gais i'r Ymchwilydd Annibynnol am ganllawiau pellach ynghylch ei argymhelliad am astudiaeth awdurdodol ar sefydlogrwydd, ac yn benodol y fethodeleg a pherthynas astudiaeth newydd i'r astudiaethau sefydlogrwydd cyson sydd yn orfodol yn ôl telerau trwydded y safle. Pwysleisiodd nad oedd ganddo'r arbenigedd dechnegol i lunio unrhyw farn ar sefydlogrwydd y safle, ond roedd yr hyn a welodd wedi peri iddo nodi fod yna bryderon gwirioneddol y dylid ymdrin â hwy unwaith ac am byth trwy gyfrwng astudiaeth awdurdodol. Dylai astudiaeth o'r fath fynd tu hwnt i'r dull arferol, gan symud o'r swyddfa i'r safle er mwyn cynnal profion. Rydym yn ystyried y dylid ymgymryd â'r astudiaeth hon fel rhan o'r prosiect i gwblhau cam 1.

*Dyfeisio, gweithredu, monitro ac adolygu system i reoli nwyon tirlenwi (16.3)*

*Trin y safle â thrwytholch (16.4)*

*Casglu a rheoli dwr daear nes llwyddir i blannu llystyfiant (16.5)*

<sup>7</sup> 'Agweddau ar Ailgylchu', Cynllun Gweithredu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i drin gwastraff, Tachwedd 2001

**2.10.** Nodwn y camau a gymerwyd gan weithredydd y safle, Amgen Rhondda Ltd., i weithredu system i reoli nwyon tirlenwi. (Bob dydd, mae staff Amgen Rhondda Ltd. yn archwilio, cynnal a gweithredu system tynnu nwy ac uned losgi. Mae'r paramedrau perthnasol yn cael eu cofnodi'n ddyddiol, eu nodi yn nyddiadur y safle ac yn cael eu rhoi i Asiantaeth yr Amgylchedd). Serch hynny, rydym yn pwysleisio'r angen am fonitro gwybodaeth mewn modd sy'n gwbl dryloyw, ac mewn 'amser real', gan sicrhau bod data am nwyon tirlenwi ac ati ar gael i'r cyhoedd eu gweld (e.e. ar wefan). Rydym hefyd yn ystyried y dylai Asiantaeth yr Amgylchedd sicrhau bod safonau monitro yn cael eu cynnal drwy gydol cyfnod adfer y safle.

*Comisiynu astudiaethau iechyd penodol yn Nantygwyddon a'r cylch (16.6)*

**2.11.** Rydym yn cefnogi'r argymhelliaid hwn. Ar hyn o bryd, prin iawn yw'r ddealltwriaeth o'r cysylltiadau rhwng iechyd yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd, a gwael iawn yw'r sylfaen ymchwil yng Nghymru. Rydym ar ddeall bod nifer o astudiaethau ar waith i gasglu data iechyd y cyhoedd a'u cysylltu â data amgylcheddol, ac awgrymir y dylai'r Prif Swyddog Meddygol a Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried sut y gellir adeiladu ar y rhain er mwyn ymdrin â'r pryderon yn ardal Nantygwyddon. Awgrymodd yr Ymchwilydd Annibynnol y dylid gwahodd Yr Athro Palmer a'r Athro Coleman o Ganolfannau lechyd Cyhoeddus Cyfunedig Cymru i ymgymryd ag ymchwil bellach i'r effaith botensial ar iechyd o gwmpas Nantygwyddon.

**2.12.** Mae'n hanfodol bod y trigolion lleol yn cael eu cynnwys yn y broses i lunio cylch gorchwyl ar gyfer yr astudiaethau, a'u bod yn cymryd rhan ym mhob cam o'r ymchwil. Mae hi hefyd yn bwysig bod Awdurdod lechyd Bro Taf (neu'r Bwrdd lechyd Lleol arfaethedig a fydd yn ei olynu) yn ffurfio rhan o'r bartneriaeth, fel y gall yr astudiaethau gael gafael ar y data iechyd hanfodol, bwydo gwybodaeth i'r maes amddiffyn iechyd y cyhoedd yn lleol, ac ennyн ymddiriedaeth y gweithwyr iechyd proffesiynol yn ogystal â'r cyhoedd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau o'r diwedd bod y trigolion sy'n byw ger Nantygwyddon yn cael gwybodaeth awdurdodol ynghylch eu pryderon am iechyd, ac y gallent ymddiried ynddo'n llawn. Rydym yn ystyried yn y dyfodol na ddylai'r trigolion lleol orfod brwydro i weld gwaith ymchwil o'r fath yn cael ei gynnal – gweler yr 'argymhellion cyffredinol' isod (argymhelliaid 16.15).

*Craffu ar faterion masnachol ac ariannol Rhondda Waste Disposal Ltd. (16.12)*

**2.13.** Rydym yn cefnogi argymhelliaid yr Ymchwilydd Annibynnol, ac yn mynegi'n siom na wnaeth Gweinyddydd Rhondda Waste Disposal Ltd. roi dogfennau i'n hymchwiliad a all fod wedi egluro materion masnachol ac ariannol y cwmni.

### **Argymhellion cyffredinol (16.7 i 16.9, 16.13 i 16.16)**

*Dosbarthu canllawiau gorfodol i Asiantaeth yr Amgylchedd ar fod yn agored a thrloyw, a phwysio am ddileu 'cyfrinachedd masnachol' fel rhywbeth sy'n fod i osgoi bod yn atebol i'r cyhoedd (16.7)*

**2.14.** Rydym yn llwyr gefnogîr argymhelliaid hwn. Dylai Asiantaeth yr Amgylchedd sicrhau bod eu prosesau gwneud penderfyniadau yn gwbl agored a thryloyw, a'u bod mor agored ag a *ganiateir* o dan y ddeddf, yn hytrach na'r hyn sy'n *ofynnol* o dan y ddeddf. Awgrymwn bod Asiantaeth Amgylchedd Cymru wedi ymgynghori â Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llunio Cod Ymarfer ar fod yn agored a thryloyw, i ategu Siarter Cwsmeriaid yr Asiantaeth, a ddylai fod wedi'i seilio ar God Ymarfer ar Fynediad i Wybodaeth Gyhoeddus y Cynulliad<sup>8</sup>.

**2.15.** Cadwyd peth gwybodaeth yn ôl o'r ymchwiliad oherwydd 'cyfrinachedd masnachol'. Nodwn bod Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn sicrhau bod cyfrinachedd masnachol cofnodion rhai cwmnïau yn cael ei ddiogelu pa un a ydynt yn ymwneud â chwmnïau preifat ai peidio, ac yn ein barn nid yw hyn yn dderbyniol. Ystyriwn na ddylai cyfrinachedd masnachol fod yn berthnasol os yw cwmnïau gwaredu gwastraff o dan berchnogaeth gyhoeddus ac yn derbyn arian cyhoeddus. Awgrymwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru bwysor ar Lywodraeth y DU i ddiddymu'r ddarpariaeth hon yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd, ac yn y cyfamser dylai wahodd pob awdurdod lleol yng Nghymru i sicrhau ei fod yn cyhoeddi pob darn perthnasol o wybodaeth, boed yn 'fasnachol sensitif' ai peidio, sy'n ymwneud â materion eu cwmnïau gwaredu gwastraff.

**2.16.** Gwahoddwn Asiantaeth yr Amgylchedd i ystyried ffyrdd o weithio mewn partneriaeth â chymunedau lleol wrth ystyried materion sy'n destun pryder yn lleol. Er ein bod yn cytuno y dylai'r Asiantaeth barhau i weithio gyda diwydiant i gynnal a gwella safonau amgylcheddol, dylai'r Asiantaeth fod, *a dylai pobl weld ei fod yn gorff sy'n pledio eu hachos*. Galwn ar Fwrdd Asiantaeth yr Amgylchedd i roi ystyriaeth briodol i'n hadroddiad a'n hargymhellion, a dymunwn fynegi ein siom ynghylch y modd y bu i'r Asiantaeth wneud sylwadau ar adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol yn y wasg a'r cyfryngau cyn i ni roi ystyriaeth iddo.

*Ystyried sut orau y gellir defnyddio asesiadau ffurfiol o effaith mewn cynlluniau gwaredu gwastraff (16.4)*

*Ystyried sut orau y gellir sicrhau'r egwyddor mai cyfrifoldeb y cynhyrchwyr yw lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff yng Nghymru (16.16)*

**2.17.** Awgrymwn y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda grwpiau cymunedol, awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill i ddatblygu gwell ffyrdd o ddefnyddio asesiadau ffurfiol o effaith er mwyn ystyried yr effaith a gaiff prosiectau gwaredu gwastraff ar gymunedau lleol. Dylai awdurdodau cyhoeddus hefyd weithio mewn partneriaeth gyda chymunedau lleol i benderfynu ar y lefelau derbyniol o berygl sy'n gysylltiedig â safleoedd gwaredu gwastraff, a chytuno ar strategaethau cyfathrebu ac addysg i sicrhau y gellir gwneud penderfyniadau hyddysg.

**2.18.** Rydym yn llwyr gefnogîr alwad mai cyfrifoldeb y cynhyrchwyr yw lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff, gan weld hyn yn allweddol i'r gwaith o gyflwyno Strategaeth Gwastraff y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd ailgylchu yn lleihau canran y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, ond os cynhyrchir mwy o wastraff, efallai mai ychydig iawn o ostyngiad a geir yn lefel

<sup>8</sup>'Cod Ymarfer ar Fynediad i Wybodaeth Gyhoeddus' Cynulliad Cenedlaethol Cymru

yr holl wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi. Mae gwaredu gwastraff yn holl-bwysig, ynghyd â datblygu dulliau mwy gwyrdd o waredu gwastraff. Rydym yn gryf o'r farn mai'r cynhyrchwyr ddylai leihau gwastraff ac aildefnyddio ac ailmgylchu gwastraff wedi'i adfer, sef y rhan fwyaf o'r gwastraff a gaiff ei anfon i safleoedd tirlenwi.

*Ystyried sut y gall cymunedau gomisiynu ymchwil annibynnol ac arfarniad o beryglon iechyd (16.15)*

**2.19.** Bu'r trigolion sy'n byw yn agos at safle tirlenwi Nantygwyddon yn ymgyrchu'n weithredol i sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydnabod ac yn ymchwilio i'w pryderon ynghylch y modd y mae'r safle'n effeithio ar eu hiechyd. Ystyriwn y dylai cymunedau lleol allu wneud cais ffurfiol i gomisiynu ymchwil annibynnol pan na fydd gan awdurdodau cyhoeddus yr adnoddau, neu pan fyddant yn anfodlon gwneud hynny ar eu rhan. Awgrymwn bod y Prif Swyddog Meddygol a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio gyda grwpiau cymunedol lleol, awdurdodau iechyd (neu'r Byrddau Iechyd Lleol arfaethedig newydd), ac awdurdodau cyhoeddus eraill i ystyried sut orau i roi'r argymhelliaid hwn ar waith.

*Cefnogi'r egwyddor o atebolrwydd cyhoeddus (16.8)*

*Ystyried a gwella'r atebolrwydd dros ddiogelu ffeiliau pan fwriedir diddymu awdurdodau (cyhoeddus) (16.9)*

*Adolygu mein prawf grantiau'r UE, a'r prosesau archwilio ac ad-dalu wrth drosglwyddo asedau (16.11)*

**2.20.** Rydym yn rhoi sêl ein bendith i'r argymhellion hyn.

*Ystyried, o safbwyt hawliau dynol, oblygiadau'r ffaith bod cyrff cyhoeddus neu led-gyhoeddus yn defnyddio sancsiynau cyfreithiol i ffrwyno protestwyr.*

**2.21.** Rydym yn rhoi sêl ein bendith i'r argymhelliaid hwn.

## **Ein hargymhellion**

**2.22.** Ceir crynodeb o'n **hargymhellion** i'r cyfarfod llawn ym **Mhennod 3.**

# Pennod 3

## Crynodeb o'r argymhellion



# Crynodeb o'r argymhellion

3.1. Rydym yn rhoi sêl ein bendith i argymhellion yr Ymchwilydd Annibynnol. Ceir eglurhad o'n rhesymau dros wneud hynny yn y pwyntiau eglurhad a amlinellir ym Mhennod Dau. Mae'r argymhellion a gyflwynwyd gennym i'r Cynulliad Cenedlaethol fel a ganlyn (dangosir rhifau argymhellion yr Ymchwilydd Annibynnol mewn cronfachau).

## Argymhellion yn ymwneud â safleoedd penodol

**Argymhelliad 1** – y dylid rhoi'r gorau i waredu gwastraff domestig yn Nantygwyddon (16.1 ar gyfer CBS Rhondda Cynon Taf).

**Argymhelliad 2** – y dylai:

- ardal cam 1 gael ei gwblhau yn gyflym, gan greu lefelau goffenedig addas er mwyn sicrhau tirffurf cadarn, sefydlog a chap sy'n weddol anhydraidd. (16.2 ar gyfer Amgen Rhondda Ltd. a CBS Rhondda Cynon Taf);
- y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gomisiynu astudiaeth awdurdodol ar sefydlogrwydd Nantygwyddon (16.10).

**Argymhelliad 3** – bod:

- system i reoli nwyon tirlenwi yn cael ei dyfeisio, ei rhoi ar waith, ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd. Dylai hyn gynnwys cofnodi tymheredd y ffagliadau mewn amser real a chofnodi am faint o amser y mae nwyon yn bresennol, a theclynnau i fonitro a ydynt yn hylosgi'n llwyr (16.3 ar gyfer Amgen Rhondda Ltd. ac Asiantaeth Amgylchedd Cymru);
- trwytholch yn cael ei drin ar y safle cyn cael ei ryddhau (16.4 ar gyfer Amgen Rhondda Ltd.);
- dŵr daear yn dal i gael ei gasglu a'i reoli nes y llwyddir i blannu llystyfiant ar y safle (16.5 ar gyfer Amgen Rhondda Ltd.).

**Argymhelliad 4** – bod astudiaethau iechyd penodol yn cael eu comisiynu mewn perthynas ag unigolion/dos/sylwedd(au) gan samplu/profi a dadansoddi gwaed, wrin a braster. Dylai'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, ynghyd â sylwadau annibynnol gan arbenigwyr, cyn gynted ag y bo modd. Mae angen gwneud y profion a'r dadansoddiadau hyn yng nghyd-destun data am lygredd amgylchynol a data am lygredd sy'n benodol i'r safle. Dylid mynd ati i geisio plotio pwysau geni isel yng nghyffiniau Nantygwyddon cyn gynted ag y bo modd (16.6 ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru).

**Argymhelliad 5** – unwaith y bydd y wybodaeth ariannol am weithgareddau masnachol a materion contractiol Rhondda Waste Disposal Ltd. ar gael i CBSRhCT, eu bod yn cael eu harchwilio'n fanwl iawn, ac os daw unrhyw dystiolaeth am gamweithredu i'r amlwg, y dylid mynd ar drywydd y mater yn egnol fel y bo unigolion yn cael eu dal i gyfrif am yr hyn a wnaethant ac na wnaethant wrth arfer stiwardiaeth ar arian cyhoeddus (16.12).

## Argymhellion cyffredinol

**Argymhelliad 6** - bod y Cynulliad Cenedlaethol yn dosbarthu canllawiau gorfodol i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru er mwyn ei gwneud yn ofynnol iddi fod mor agored a thryloyw ag a ganiateir o dan y ddeddfwriaeth bresennol. At hynny, dylai bwysio ar lywodraeth y DU i gefnogi'r hawl i bobl gael gwybodaeth am yr amgylchedd yn gyffredinol, ac yn sicr i ddileu "cyfrinachedd masnachol" fel rhywbeth sy'n fod i osgoi bod yn atebol i'r cyhoedd.

**Argymhelliad 7** – bod y Cynulliad Cenedlaethol:

- yn ystyried sut orau y gellir defnyddio asesiadau ffurfiol o effaith (amgylcheddol, iechyd ac ariannol) yng Nghymru i roi'r ystyriaeth briodol i oblygiadau cynlluniau, rhagleni a phrosiectau sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff (16.14);
- yn ystyried sut orau i sicrhau bod yr egwyddor mai cyfrifoldeb y cynhyrchwyr yw lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff yng Nghymru, yn cael ei mabwysiadu (16.16).

**Argymhelliad 8** - sut y gall cymunedau geisio ymchwil annibynnol ac arfarniad o beryglon iechyd er mwyn tawelu eu hofnau ac ymateb i ddiffyg gweithredu neu fethiant ar ran y cyrff rheoliadol/diogelu iechyd (16.15).

**Argymhelliad 9** – bod y Cynulliad Cenedlaethol:

- yn cefnogi'r egwyddor o fod yn atebol i'r cyhoedd am "bwrs y wlad" (16.8);
- yn rhoi ystyriaeth i bwy sy'n atebol am ddiogelu ffeiliau pan fwriedir diddymu awdurdod cyhoeddus, gan wellar atebolrwydd hwnnw (16.9);
- yn cynnal adolygiad o feini prawf grantiau'r UE, ac o'r prosesau archwilio ac ad-dalu os yw ased a gafodd gymorth grant yn cael ei drosglwyddo heb fudd ariannol i'r cyhoedd (16.11).

**Argymhelliad 10** – bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried, o safbwyt hawliau dynol, oblygiadau'r ffaith bod cyrff cyhoeddus neu led-gyhoeddus yn defnyddio sancsiynau cyfreithiol i ffrwyno gweithgareddau swyddogion mudiadau megis RANT sy'n trefnu protestiadau yn erbyn y cyrff hynny (16.13).



# Atodiadau





## Penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol

Ar 4 Gorffennaf 2000 pasiodd y Cynulliad Cenedlaethol y penderfyniad a ddilyn:

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu peri i ymchwiliad annibynnol gael ei gynnal i safle tirlenwi Nantygwyddon, a fydd yn ystyried y materion yn ymwneud ag iechyd, yr amgylchedd a chynllunio sydd yn berthnasol iddo wrth arfer ei swyddogaethau; ac yn galw ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a phartïon eraill sydd â diddordeb, i gymryd rhan lawn yn yr ymchwiliad hwn; ac mae'n cyfarwyddo Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth i symud ymlaen yn unol â hynny, gan weithio gyda Phwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth.*

*Yn unol â'r pwebau a roddwyd iddo yn adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cymeradwyo'r egwyddor bod ymchwiliad o'r fath yn cael ei gynnal gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth gyda chymorth ymchwilydd annibynnol. At hynny, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a phartïon eraill sydd â diddordeb, i gymryd rhan lawn yn yr ymchwiliad.*

Rhagdybir y dylai'r ymchwiliad:

- *gael ei gynnal yn gyhoeddus, ac eithrio pan ystyri'r y byddai hynny'n andwyol i ganlyniad yr ymchwiliad;*
- *cyfarfod a chlywed tystiolaeth yn lleol, lle bo hynny'n briodol;*
- *sicrhau bod yr holl bartïon sydd â diddordeb yn cael y cyfle i gyflwyno tystiolaeth ar lafar, yn ogystal â thystiolaeth ysgrifenedig, i'r ymchwiliad;*
- *cyhoeddus yn unol ag adran 35(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998;*
- *gallu gwneud argymhellion penodol i'w hystyried wedyn mewn Cyfarfod Llawn.*

### Cylch Gorchwyl

Cylch Gorchwyl yr ymchwiliad a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ar 13 Medi 2000<sup>9</sup>.

#### **YMCHWILIAD ANNIBYNNOL – SAFLE CLADDU GWASTRAFF NANTYGWYDDON**

Prif ffocws yr ymchwiliad yw edrych tuag ymlaen, a cheisio dod o hyd i wersi ar gyfer y dyfodol, mewn perthynas â'r safle ac mewn perthynas â materion cyffredinol ynghylch rheoli gwastraff.

Er mwyn dod o hyd i wersi ar gyfer y dyfodol, bydd rhaid i'r ymchwiliwr:

- arolygu hanes sefydlu a rheoli'r safle (yn ogystal â materion ariannol) – gan gynnwys y rhesymau am ddewis Nantygwyddon;
- sefydlu beth yw'r arfer gorau cyfredol ar gyfer rheoli safleoedd claddu sbwriel;
- asesu sut y mae trefniadau sefydlu, rheoli a rheoleiddio safle claddu sbwriel Nantygwyddon yn cymharu â'r meincnod hwnnw, yn ogystal â'r canllawiau arfer gorau a oedd yn weithredol ar y pryd;
- os oes angen hynny, dod o hyd i wersi ar gyfer gweithredu safle claddu sbwriel Nantygwyddon yn y dyfodol, ac unrhyw ymchwiliadau neu weithredu ychwanegol sydd eu hangen yn Nantygwyddon;
- dod o hyd i wersi cyffredinol ar gyfer rheoli gwastraff yng Nghymru yn y dyfodol;
- ystyried a yw'r safle'n addas ai peidio yng ngoleuni'r canllawiau cynllunio sydd ar gael nawr, â'r canllawiau a oedd mewn grym pan roddwyd caniatâd cynllunio;
- ystyried dyluniad y safle claddu sbwriel â'r rôl a chwaraewyd gan gyrff hyrwyddo a rheoleiddio wrth benderfynu ar y dyluniad hwnnw;
- casglu honiadau o effeithiau andwyol ar iechyd a briodolir i'r safle, a thystiolaeth o salwch ac afiechydon penodol yn y boblogaeth leol;
- gweld pa systemau sydd wedi eu sefydlu gan yr awdurdod iechyd, yr awdurdod lleol, y Swyddfa Gymreig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i ymateb i'r pryderon a fynegwyd ynghylch salwch a briodolwyd i Safle Claddu Gwastraff Nantygwyddon;

---

<sup>9</sup>EPT-08-00, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

- nodi ac asesu ymatebion a gafwyd i bryderon iechyd pobl leol ers i'r safle agor a'r cydweithio traws-ddisgyblaethol yr ymgwymerwyd ag ef. Mae hyn i gynnwys meddygon teulu, Asiantaeth yr Amgylchedd, yr awdurdod iechyd, yr awdurdod lleol, Y Swyddfa Gymreig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru;
- asesu ymchwiliadau/ymchwil a gynhaliwyd i gefnogi camau a gymerir gan feddygon teulu, yr awdurdod iechyd, yr awdurdod lleol, Y Swyddfa Gymreig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a sut y cyfathrebwyd hyn â'r trigolion lleol ac eraill oedd â diddordeb yn y mater;
- gwneud adroddiadau cynnydd i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth ar ôl dau a phedwar mis o ddechrau'r ymchwiliad;
- adrodd ar ddarganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth o fewn chwe mis o ddechrau'r gwaith.

Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth  
13 Medi 2000

### Argymhellion yr Ymchwilydd Annibynnol

Ar 12 Rhagfyr 2001, cyflwynodd yr Ymchwilydd Annibynnol, David Purchon, ei adroddiad i'r Pwyllgor, ac mae ei argymhellion fel a ddilyn (gweler adran 16 o'i adroddiad). Mae copi o'r adroddiad ar gael yn llawn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol [www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

16.1 *Yr wyf yn argymhell y dylid rhoi'r gorau i waredu gwastraff domestig yn Nantygwyddon.*

16.2 *Yr wyf yn argymhell bod cam 1 yn cael ei gwblhau yn gyflym, gan greu lefelau gorffenedig addas er mwyn sicrhau tirffurf cadarn, sefydlog, a chap sy'n weddol anhydraidd. Byddwn yn argymhell bod yr awdurdodau yn ystyried rhagoriaethau defnyddio'r tir na olyngwyd sbwriel arno hyd yn hyn i gwblhau'r gwaith o "adfer" tomenni gwastraff glo y Gelli, ac efallai tomenni amlwg eraill tebyg yn y cyffiniau, gan geisio sicrhau tirffurf sy'n gydnaws â thopograffeg y cyffiniau. Mae graddiant arfaethedig lefelau gorffenedig y llethrâu yn destun pryder i mi.*

16.3 *Yr wyf yn argymhell bod system i reoli nwyon tirlenwi yn cael ei dyfeisio, ei rhoi ar waith, ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd. Dylai hyn gynnwys cofnodi tymheredd y ffagliadau mewn amser real a chofnodi am faint o amser y mae nwyon yn bresennol, a theclynnau i fonitro a ydynt yn hylosgi'n llwyr.*

16.4 *Yr wyf yn argymhell bod trwytholch yn cael ei drin ar y safle cyn cael ei ryddhau.*

16.5 *Nes y llwyddir i blannu llystyfiant ar y safle tirlenwi, yr wyf yn argymhell bod dŵr daear yn dal i gael ei gasglu a'i reoli.*

16.6 *Yr wyf yn argymhell bod astudiaethau iechyd penodol yn cael eu comisiynu mewn perthynas ag unigolion/dos/sylwedd(au) gan samplu/profi a dadansoddi gwaed, wrin a braster. Dylai'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, ynghyd â sylwadau annibynnol gan arbenigwyr, cyn gynted ag y bo modd. Mae angen gwneud y profion a'r dadansoddiadau hyn yng nghyd-destun data am lygredd amgylchynol a data am lygredd sy'n benodol i'r safle. Dylid mynd ati i geisio plotio pwysau geni isel yng nghyffiniau Nantygwyddon cyn gynted ag y bo modd.*

16.7 *Yr wyf yn argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn dosbarthu canllawiau gorfodol i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru er mwyn ei gwneud yn ofynnol iddi fod mor agored a thyroloyw ag a ganiateir o dan y ddeddfwriaeth bresennol. At hynny, dylai bwysu ar lywodraeth y DU i gefnogi'r hawl i bobl gael gwybodaeth am yr amgylchedd yn gyffredinol, ac yn sicr i ddileu "cyfrinachedd masnachol" fel rhywbeth sy'n fod i osgoi bod yn atebol i'r cyhoedd.*

16.8 Yr wyf yn argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi'r egwyddor o fod yn atebol i'r cyhoedd am "bwrs y wlad".

16.9 Yr wyf yn argymhell bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i bwy sy'n atebol am ddiogelu ffeiliau pan fwriedir diddymu awdurdod cyhoeddus, gan wella'r atebolrwydd hwnnw.

16.10 Yr wyf yn argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn comisiynu astudiaeth awdurdodol ar sefydlogrwydd Nantygwyddon.

16.11 Yr wyf yn argymhell bod adolygiad yn cael ei gynnal o feini prawf grantiau'r UE, ac o'r prosesau archwilio ac ad-dalu os yw ased a gafodd gymorth grant yn cael ei drosglwyddo heb fudd ariannol i'r cyhoedd.

16.12 Unwaith y bydd yr wybodaeth ariannol am weithgareddau masnachol a materion contractiol Rhondda Waste Disposal Ltd. ar gael i CBSRhCT, yr wyf yn argymhell eu bod yn cael eu harchwilio'n fanwl iawn, ac os y daw unrhyw dystiolaeth am gamweithredu i'r amlwg, y dylid mynd ar drywydd y mater yn egniol fel y bo unigolion yn cael eu dal i gyfrif am yr hyn a wnaethant ac na wnaethant wrth arfer stiwardiaeth ar arian cyhoeddus.

16.13 Ar ôl iddo gael unrhyw wybodaeth gyfreithiol neu unrhyw wybodaeth arall angenrheidiol, yr wyf yn argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried, o safbwyt hawliau dynol, oblygiadau'r ffaith bod cyrff cyhoeddus neu led-gyhoeddus yn defnyddio sancsiynau cyfreithiol i ffrwyno gweithgareddau swyddogion mudiadau megis RANT sy'n trefnu protestiadau yn erbyn y cyrff hynny.

16.14 Yr wyf yn argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried sut orau y gellir defnyddio asesiadau ffurfiol o effaith (amgylcheddol, iechyd ac ariannol) yng Nghymru i roi'r ystyriaeth briodol i oblygiadau cynlluniau, rhagleni a phrosiectau sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff.

16.15 Yr wyf yn argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried sut y gall cymunedau geisio ymchwil annibynnol ac arfarniad o beryglon iechyd er mwyn tawelu eu hofnau ac ymateb i ddiffyg gweithredu neu fethiant ar ran y cyrff rheoliadol/diogelu iechyd.

16.16 Yr wyf yn argymhell bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried sut orau i sicrhau bod yr egwyddor mai cyfrifoldeb y cynhyrchwyr yw lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff yng Nghymru, yn cael ei mabwysiadu.

# Ymatebion i Adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol

Estynnodd y Pwyllgor Wahoddiad i bawb a oedd yn cymryd rhan yn yr archwiliad i roi eu sylwadau ar adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol. Derbyniwyd ymatebion oddi wrth yr unigolion a'r sefydliadau a restrir isod.

### Cyrff Cyhoeddus:

Awdurdod lechyd Bro Taf\*  
Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru\*  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru)\*  
CBS Rhondda Cynon Taf\*

### Sefydliadau:

Amgen Rhondda Ltd. (gweithredwyr y safle)\*  
Cymdeithas y Gwasanaethau Amgylcheddol\*  
Cyfeillion y Ddaeear\*  
Sefydliad Rheoli Gwastraff\*  
Ove Arup and Partners Ltd\*

### Unigolion:

June Bacon  
Victor J Collier\*  
Jim Davies\*  
Gwyn Evans\*  
MD Evans\*  
M Hann  
Mansal Mason\*  
Garrod Owen\*  
Rhondda Against Nantygwyddon Tip (RANT)  
Mike Ryan  
Heather Sutton  
Gareth R Thomas  
Joan Thomas  
William M Thomas  
Andrew Tree\*  
Dr D Van Steenis\*  
Graham Wayman

\* Dylid darllen yr ymatebion hyn ochr yn ochr ag adroddiad yr Ymchwilydd Annibynnol, am eu bod yn cynnwys pwyntiau y mae'r cyfranwyr yn eu hystyried fel anghywirdebau ffeithiol yn yr adroddiad, a'u bod wedi gofyn i'r pwyntiau gael eu cywiro, neu eu bod am weld rhannau a hepgorwyd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad gan iddynt farnu eu bod yn berthnasol i'r gwaith o ystyried y canlyniadau a'r argymhellion terfynol.